Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4744A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in Welsh.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwilio cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau 8

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 14

Atodiad 2 – ffi archwilio 16

Atodiad 3 – risgiau archwilio cyfrifon 17

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio 2024 ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Rwy'n adrodd ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwilio cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Cynhaliwyd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i set eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Yn ogystal, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin â gwaddol pandemig COVID-19. Dyluniwyd fy rhaglen waith, felly, er mwyn sicrhau pobl Cymru yn y modd gorau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

4 Fe wnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell i raddau helaeth gan ddefnyddio technoleg, ond gyda gwaith archwilio ar y safle yn cael ei wneud lle roedd yn briodol gwneud hynny.

5 Cafodd y dyddiad cau cyflwyno cyfrifon archwiliedig ei fyrhau bythefnos o gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 15 Gorffennaf 2024. Ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 12 Gorffennaf 2024, sy'n golygu bod y dyddiad cau wedi'i fodloni. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech wych ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Mae ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad yn parhau i gyd-fynd â'r heriau ôl-bandemig sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru ac mae'n cael ei gynnal yn unol â safonau archwilio INTOSAI[1].

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau manylach i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1).** Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, ond heb ei gwblhau eto.

[1] Mae INTOSAI (International Organisation of Supreme Audit Institutions) yn sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau ymgymryd â’m gwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2024.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio cyfrifon a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2024 a sut y cawsant sylw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, Gwasanaethau Cyfalaf a Chymorth a'r Dirprwy Brif Weithredwr, a Chyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe wnaethom ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 13 Mai 2025. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei gyhoeddi’n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwilio cyfrifon

12 Fe wnes i ddod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir ac yn cyhoeddi barn 'wir a theg' ddiamod.

13 Fodd bynnag, yn unol â'r llynedd, mae'r farn ar reoleidd-dra yn amodol gan nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei derfyn adnoddau refeniw dros y tair blynedd hyd at 2023-24.

14 Cyhoeddais hefyd adroddiad o sylwedd yn esbonio'r amod hwn. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf na'r ail i weithredu o fewn ei ddyraniad adnoddau refeniw dros y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben 2023-24, ac i gael cynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

15 Mae fy rhaglen waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithio'n dda ac mae yna onestrwydd ynghylch yr heriau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu ac ymrwymiad i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cyflawni cynlluniau tymor byr neu ganolig sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru, ac mae angen gwaith parhaus i gryfhau rhai agweddau allweddol ar drefniadau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd.
- Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd ei darged diffyg ariannol cytunedig ar gyfer 2023-24, mae ei hanes diweddar o gyflawni yn erbyn ei dargedau arbedion cyffredinol yn amrywiol iawn. O ystyried sefyllfa ariannol bresennol heriol y Bwrdd Iechyd, mae angen iddo gyflymu'r gwaith ar gyflwyno model

gwasanaeth newydd, mwy cynaliadwy yn ariannol ac i sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r gallu angenrheidiol i gefnogi'r newidiadau trawsnewid sydd eu hangen.

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael ag argymhellion o fy ngwaith blaenorol ar ofal sylfaenol sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a hyfforddiant ac mae'n bwrw ymlaen â'r gwaith i ddatblygu a chryfhau Clystyrau Gofal Sylfaenol. Fodd bynnag, mae wedi cael trafferth symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, sefydlu llinell sylfaenol ariannol er mwyn deall gwir gost gofal sylfaenol a chael dealltwriaeth gynhwysfawr o'i weithlu gofal sylfaenol.

16 Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwilio cyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o arddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llif arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd cywir ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

18 Mae fy Nghynllun Archwilio 2024 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2023-24 a manylir ar y rhain ynghyd â sut y cawsant sylw yn **Atodiad 3 Arddangosyn 4**,

19 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2023-24

20 Cyhoeddais farn archwilio wir a theg a diamod ond barn amodol ar reoleidd-dra. Yn unol â'r llynedd, cymhwyswyd y farn ar reoleidd-dra gan na wnaeth y Bwrdd Iechyd fodloni ei derfyn adnoddau refeniw dros y tair blynedd hyd at 2023-24.

21 Cyflwynwyd y Cyfrifon Drafft i'w harchwilio cyn y dyddiad cau, ac roedd ansawdd y cyfrifon yn dda ar y cyfan. Roedd papurau gwaith ategol yn gynhwysfawr ac yn gywir, ac fe gawsom gydweithrediad rhagorol trwy gydol yr archwiliad.

22 Mae'n rhaid i mi adrodd am faterion sy'n codi o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd) i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynwyd fy Adroddiad Cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 9 Gorffennaf 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nid nodwyd unrhyw gamddatganiadau a gafodd eu gadael heb eu cywiro yn y cyfrifon archwiliedig. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | I ddechrau, roedd camddatganiadau yn y cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio a gafodd eu cywiro gan reolwyr, a daethom â'r rhai mwyaf arwyddocaol o'r rhain i sylw'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ein hadroddiad. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Materion arwyddocaol eraill | Nid oedd unrhyw faterion sylweddol i'w hadrodd, mewn gwirionedd fe wnaethom nodi gwelliannau ers y flwyddyn flaenorol mewn perthynas â rhoi cyfrif am symiau taladwy a chroniadau. |

23 Fe wnes i hefyd gwblhau fy archwiliad o'r cyfrifon cronfeydd elusennol a chyhoeddi barn ddiamod ar 31 Ionawr 2025.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

24 Mae'n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd fod â'r pwerau i dderbyn incwm ac ysgwyddo gwariant. Mae ein gwaith yn archwilio'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad yw'r Bwrdd Iechyd yn meddu ar y pwerau i'w derbyn na'u hysgwyddo.

25 Pan nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni balans ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi roi barn amodol ar reoleidd-dra.

26 Roedd barn yr archwiliad mewn perthynas â rheoleidd-dra gwariant yn amodol, oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei derfyn adnoddau trwy wario £18.905 miliwn dros y swm yr oedd ganddo'r hawl i'w wario yn y cyfnod o dair blynedd 2021-22 i 2023-24.

27 Mae gennyf y pŵer i gyflwyno adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn lle rwyf eisiau amlygu materion. Oherwydd y mater a nodir uchod, cyhoeddais adroddiad o sylwedd yn nodi'r manylion ffeithiol.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

28 Mae gen i ofyniad statudol i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu fy argymhellion yn 2019 ar ofal sylfaenol, yn ogystal ag i ba raddau y mae'r Bwrdd a/neu ei bwyllgorau yn ystyried materion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol a bod gallu a chapasiti priodol i gyflawni blaenoriaethau;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau arbed costau'r Bwrdd Iechyd;

- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

29 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Adolygiad dilynol o ofal sylfaenol

30 Archwiliodd fy adolygiad i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu fy argymhellion blaenorol yn 2019 yn ymwneud â gofal sylfaenol. Fe wnes i hefyd asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd a/neu ei bwyllgorau yn ystyried materion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol yn rheolaidd, ac a oes gan dîm gwasanaethau gofal sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd y capasiti a'r gallu priodol.

31 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i fynd i'r afael â'm hargymhellion archwilio blaenorol, ond mae angen mwy o weithredu.

32 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â chamau gweithredu sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a hyfforddiant ac mae'n bwrw ymlaen â'r gwaith i ddatblygu a chryfhau Clystyrau Gofal Sylfaenol. Fodd bynnag, mae wedi cael trafferth symud adnoddau y mae'n eu buddsoddi mewn gofal eilaidd (fel comisiynydd a darparwr) i ofal sylfaenol, sefydlu llinell sylfaenol ariannol i ddeall gwir gost gofal sylfaenol a chael dealltwriaeth gynhwysfawr o'i weithlu gofal sylfaenol.

33 Mae gofal sylfaenol yn rhan o strategaeth hirdymor a chynllun corfforaethol y Bwrdd Iechyd, ac mae trefniadau rhesymol ar waith ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau gofal sylfaenol. Ond mae angen cryfhau'r ystyriaeth o ran gofal sylfaenol, gan gynnwys adrodd ar berfformiad, yn y Bwrdd a phwyllgorau, ac mae angen i gynlluniau gofal sylfaenol fod yn gliriach ynghylch mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau a'r effaith y maent yn ei chael ar brofiad cleifion.

34 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau corfforaethol priodol mewn perthynas â goruchwyliaeth a llinellau atebolrwydd am ofal sylfaenol. Ar adeg fy ngwaith, nodais rai risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r trefniadau interim ar gyfer rôl y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, fodd bynnag, ers hynny mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi yn barhaol i'r rôl hon. Mae fy ngwaith hefyd wedi nodi posibiliadau i fabwysiadu dull mwy cyfannol o ran gofal sylfaenol trwy sefydlu grŵp rheoli cyffredinol sy'n dwyn ynghyd y pedwar gwasanaeth gofal sylfaenol, a'r angen i reoli risgiau ynghylch capasiti o fewn y Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol gan gynnwys yr angen i gael trefniadau cynllunio olyniaeth cryfach o fewn y tîm.

## Adolygiad o drefniadau arbed costau

35 Fe wnaeth fy adolygiad archwilio p'un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol ar gyfer nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd arbed costau cynaliadwy. Ystyriodd yr effaith a gafodd y trefniadau hyn ar sefyllfa ddiwedd blwyddyn y Bwrdd Iechyd 2023-24 ac amlygodd ble y gallai fod angen cryfhau trefniadau ar gyfer 2024-25 a thu hwnt.

36 Canfu fy ngwaith, er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd ei darged diffyg cytunedig ar gyfer 2023-24, mae ei hanes diweddar o gyflawni yn erbyn ei dargedau arbedion cyffredinol yn amrywiol iawn. O ystyried sefyllfa ariannol bresennol heriol y Bwrdd Iechyd, mae angen iddo gyflymu'r gwaith ar gyflwyno model gwasanaeth newydd, mwy cynaliadwy yn ariannol ac i sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r gallu angenrheidiol i gefnogi'r newidiadau angenrheidiol.

37 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gostau, a phroses glir ar gyfer nodi a dewis cyfleoedd arbed costau. Yn gadarnhaol, o'r arbedion y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r mwyafrif wedi bod yn gylchol eu natur. Fodd bynnag, mae gallu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei dargedau arbedion cyffredinol wedi amrywio'n sylweddol. Mae'r hanes amrywiol hwn, ynghyd â bylchau sgiliau a chapasiti mewn meysydd allweddol, yn cyflwyno risgiau a allai olygu na fyddai'n cyrraedd ei dargedau arbedion 2024-25.

38 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rhesymol effeithiol ar gyfer monitro ac adrodd ar arbedion costau. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i ddarparu sicrwydd cryfach bod cynlluniau lleihau costau allweddol yn cyflawni yr effaith a fwriadwyd, i gryfhau trefniadau rheoli risg, ac i gyflwyno dull systematig ar gyfer dysgu gwersi o'r gwaith o gynllunio a chyflawni arbedion.

## Asesiad strwythuredig

39 Archwiliodd fy nhîm drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar dryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; dull corfforaethol ar gyfer cynllunio; a dull corfforaethol ar gyfer rheoli adnoddau ariannol. Talodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

40 Ar adeg fy ngwaith asesu strwythuredig, roedd y Bwrdd Iechyd yn destun Ymyrraeth wedi'i Thargedu (Lefel 4) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio o dan drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru. Roedd y Bwrdd Iechyd yn destun Monitro Arferol (Lefel 1) ar gyfer pob maes arall.

### Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

41 Roedd fy ngwaith yn ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Fe wnes i roi sylw arbennig i'r canlynol:

- Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd
- Trefniadau i gefnogi gwaith cynnal busnes y Bwrdd
- Strwythur y bwrdd a'r pwyllgor, busnes, cyfarfodydd, a llif sicrwydd
- Ymrwymiad y bwrdd i glywed oddi wrth staff, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill
- Sgiliau, profiadau a chydlyniant y Bwrdd a'i ymrwymiad i wella.

42 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes yn dryloyw ac i welliant parhaus. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n dda, ac mae

gwaith craffu wedi parhau i gryfhau ond mae angen mwy o sicrwydd i sicrhau bod cynlluniau gwaith y pwyllgor yn cael eu halinio â blaenoriaethau strategol allweddol a'r risgiau a allai atal cyflawni.

43 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn dangos lefelau da o dryloywder cyhoeddus wrth gynnal eu busnes. Gellid cryfhau'r trefniadau presennol ymhellach trwy hyrwyddo cyfarfodydd pwyllgor sydd ar ddod yn gliriach.

44 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da yn gyffredinol ar gyfer monitro a diweddaru ei fframweithiau rheoli mewnol craidd. Mae gwaith pellach yn dal i gryfhau ei drefniadau ar gyfer uniondeb a phriodoldeb.

45 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n dda, ac mae ansawdd y craffu gan aelodau annibynnol wedi parhau i wella. Mae angen mwy o waith i gryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ymhellach i roi sicrwydd bod pwyllgorau'n cael eu halinio â blaenoriaethau strategol allweddol a'r risgiau a allai atal cyflawni.

46 Er bod papurau'r Bwrdd a'r pwyllgor yn gyffredinol o safon dda, mae cyfleoedd i sicrhau gwelliannau pellach. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno cyn unrhyw naratif manwl i ganolbwyntio sylw, bod yn glir ynglŷn â'r hyn y gofynnir i bwyllgor ei wneud mewn perthynas ag eitemau agenda a lleihau'r defnydd o iaith dechnegol ac acronymau. Mae'r Bwrdd yn parhau i glywed oddi wrth gleifion a staff ac mae lle i rannu'r hyn a ddysgir o droeon y Bwrdd.

47 Mae gan y Bwrdd aelodaeth sefydlog erbyn hyn, yn dilyn rhai newidiadau sylweddol ac mae wedi ymrwymo i welliant parhaus.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

48 Ystyriodd fy ngwaith pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull gweithredu corfforaethol cadarn i reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer y canlynol:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau;
- tracio argymhellion.

49 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei systemau sicrwydd. Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad, ond mae angen mwy o waith i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, cryfhau trefniadau rheoli risg strategol a gweithredol, darparu mwy o eglurder ar flaenoriaethau ansawdd a diogelwch, a gwella'r trefniadau ar gyfer cau argymhellion.

50 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cam cyntaf ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd nodi'r holl ffynonellau sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd ei drefniadau i reoli risgiau strategol a chyflawni ei amcanion sefydliadol. Mae angen cryfhau'r cofrestrau risg corfforaethol a'r trefniadau i uwchgyfeirio'r risgiau â'r sgôr weithredol uchaf.

51 Mae diwygiadau i fframwaith rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi helpu i gryfhau goruchwyliaeth o berfformiad sefydliadol. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol yn gyffredinol ar gyfer cynnal goruchwyliaeth o ansawdd a diogelwch ac mae wedi parhau i ymgorffori trefniadau i oruchwylio'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd. Fodd bynnag, er bod Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd yn nodi mesurau i fonitro ansawdd a diogelwch, nid yw'n nodi uchelgeisiau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer ansawdd a diogelwch ei wasanaethau a sut y bydd yn mynd ati i'w cyflawni.

52 Mae trefniadau cyffredinol y Bwrdd Iechyd i fonitro a thracio argymhellion yn effeithiol yn gyffredinol, ond mae angen goruchwyliaeth a gwaith craffu mwy cadarn i sicrhau bod camau a gymerir i fynd i'r afael ag argymhellion yn ddigonol cyn iddynt gael eu cau.

## Dull corfforaethol o gynllunio

53 Ystyriodd fy ngwaith pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer cynllunio. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- llunio a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a
- goruchwylio’r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

54 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at gyflawni ei strategaeth hirdymor 'Powys Iach a Gofalgar 2017-27' a'i fod yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar ei fodel trawsnewid 'Gwell Gyda'n Gilydd' er ei fod yn parhau i fethu â chynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn lle hynny, mae wedi datblygu Cynllun Integredig 2024-29, gyda blwyddyn un y cynllun yn gweithredu fel ei Gynllun Blynyddol.

55 Amcanion strategol y Bwrdd Iechyd hefyd yw ei amcanion llesiant, a gafodd eu llywio gan dystiolaeth ac ymgysylltiad priodol. Fodd bynnag, dylid adolygu amcanion llesiant yn flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol, ac mae diffyg eglurder ynghylch sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflawni ei amcanion a dangos eu heffaith dros y tymor canolig i'r tymor hwy.

56 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol yn gyffredinol ar gyfer goruchwylio cyflawni blwyddyn un ei Gynllun Integredig 2024-29. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei strategaeth hirdymor yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol, a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gyflymder digonol i gyflawni'r effeithiau arfaethedig. Dylid gwella sut yr adroddir am gynnydd i gyflawni cynlluniau eraill, megis y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio a'r Fframwaith Strategol Digidol gyda gwybodaeth i ddangos lle mae cyflawni wedi mynd oddi ar y trywydd iawn, camau lliniaru cysylltiedig, ac amserlenni cyflawni diwygiedig.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

57 Ystyriodd fy ngwaith pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol; a
- goruchwylio perfformiad ariannol.

58 Canfu fy ngwaith, er bod trefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn effeithiol yn gyffredinol, mae angen cryfhau trefniadau monitro ac adrodd i sefydlu rheolaeth dros y risgiau i'w sefyllfa ariannol ar frys. Mae heriau ariannol parhaus hefyd yn golygu bod angen monitro unrhyw risgiau perfformiad ac ansawdd cysylltiedig i ddarpariaeth gwasanaethau.

59 Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni ei amcan ariannol i fantoli’r cyfrifon yn 2023-24, ac mae'n wynebu heriau sylweddol wrth gyflawni ei sefyllfa ddiffyg ddiwedd blwyddyn yn 2024-25 a'r cyfanswm diffyg rheoli a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru.

60 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o ddatblygu ei gynllun ariannol yn y tymor byr i'r tymor canolig. Fodd bynnag, mae heriau ariannol parhaus yn golygu bod angen monitro risgiau ariannol ac effaith heriau ariannol ar berfformiad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

61 Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau effeithiol ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol, mae angen iddo reoli ei gostau ar frys. Er bod adroddiadau ariannol yn darparu digon o wybodaeth i alluogi craffu a herio effeithiol, mae angen iddynt fod yn gliriach ynghylch effaith y camau a gymerir i wella sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2024 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2024 |
| Adroddiad a Barn ar Gronfeydd Elusennol | Ionawr 2025 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad Dilynol Gofal Sylfaenol | Gorffennaf 2024 |
| Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau | Rhagfyr 2024 |
| Asesiad Strwythuredig 2024 | Mai 2025 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2024 | Mawrth 2024 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2024 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau'r sector cyhoeddus cyfan. Fel arfer, ariennir yr astudiaethau hyn drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith o graffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad yn dal ar y gweill**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad o Adferiad Gwasanaethau Gofal Cynlluniedig | Mai 2025 |
| Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng – Trefniadau ar gyfer Rheoli'r Galw | Mehefin 2025 |
| Gofal brys a Gofal mewn Argyfwng: Y Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Powys | Mehefin 2025 |
| Cynllunio Rhyddhau: Diweddariad Cynnydd | Mehefin 2025 |
| Adolygiad o Drawsnewid Digidol | Medi 2025 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2024 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £321,168 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio cyfrifon

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2024 yn nodi risgiau o gamddatganiad perthnasol a/neu afreoleidd-dra ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Ar ôl ymgymryd â'r gwaith archwilio arfaethedig, ni ddaethom o hyd i unrhyw faterion sylweddol. |
| Mae risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll mewn gwariant ac felly mae'n cael ei thrin fel risg arwyddocaol [PN 10]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• perfformio profion manwl ar sampl o drafodiadau allweddol cyn ac ar ôl diwedd y flwyddyn i sicrhau eu bod yn | Ar ôl ymgymryd â'r gwaith archwilio arfaethedig, ni chanfuom unrhyw faterion sylweddol. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| | cael eu cyfrif yn y cyfnod cyfrifyddu cywir;<br>• Perfformio profion manwl ar sampl o balansau allweddol diwedd blwyddyn i sicrhau eu bod yn briodol ac yn gyflawn. | |
| Mae risg sylweddol y byddwch yn methu â chyflawni eich dyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r sefyllfa ym mis 11 yn dangos diffyg ar gyfer y flwyddyn bresennol o £11.7 miliwn a diffyg diwedd blwyddyn a ragwelir o £12.0 miliwn, sy'n fwy na chyfanswm rheoli cyhoeddedig y Gweinidog.<br>Mae hyn, ynghyd â'r alldro ar gyfer 2021-22 a 2022-23, yn rhagweld diffyg tair blynedd o £18.8 miliwn. Pan fyddwch yn methu o ran y ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y methiant ac yn rhoi barn amodol ar eich rheoleidd-dra. Mae eich pwysau ariannol presennol yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod â thuedd mewn ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol. | Byddwn yn canolbwyntio ein profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys adroddiadau â thuedd. | Nid oedd ein profion yn nodi unrhyw adroddiadau â thuedd. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Bu gwallau hanesyddol ym malansau taladwy y Bwrdd Iechyd. | Byddwn yn adolygu dosbarthiad a chywirdeb y balansau ac yn cynnal profion taliadau ar ôl diwedd y flwyddyn i sicrhau bod trafodiadau wedi'u cyfrif yn y flwyddyn gywir. | Roedd yn braf nodi nad ydym wedi dod o hyd i unrhyw wallau yn ein profion sampl o'r maes hwn. |
| Mae ffynhonnell allweddol o ansicrwydd amcangyfrif yn ymwneud â'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau esgeulustod clinigol ac anaf personol. Mae natur oddrychol y darpariaethau hyn a'r dyfarniadau cysylltiedig yn arwain at fwy o risg. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• perfformio profion manwl ar sampl o hawliadau;<br>• gwerthuso rhesymolrwydd rhagdybiaethau a dyfarniadau allweddol;<br>• ystyried gwaith Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg ac Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG fel arbenigwr rheoli. | Fe wnaethom nodi rhai anghysondebau rhwng nodiadau a rhai gwallau dosbarthu. Diwygiwyd pob un ohonynt gan reolwyr. |
| Mae risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â datgelu rhai trafodiadau a datgeliadau parti cysylltiedig neu ddatgelu'r trafodiadau hyn am y gwerth anghywir. | Byddwn yn adolygu cyflawnrwydd a chywirdeb y datgeliadau. | Nid oedd ein profion yn nodi unrhyw broblemau. |
| Bu gwallau hanesyddol yn natganiadau ariannol drafft y Bwrdd Iechyd, wrth ddatgelu cyflog Uwch Swyddogion ac aelodau Anweithredol o fewn yr | Byddwn yn adolygu cyflawnrwydd a chywirdeb y datgeliadau. | Nododd ein harchwiliad sawl gwall yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol. Diwygiwyd pob un ohonynt gan reolwyr. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol.. | | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.